Comisiynydd Heddlu a Throseddu
Dyfed-Powys
Police and Crime Commissioner

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Gymraeg yn ogystal â Saesneg.

This document is available in Welsh as well as English.

**TAFLEN CRYNHOI PENDERFYNIAD**

**Diben:** Penderfyniad y Comisiynydd – Cyf. DLl403

**Amseru: Unigol**

**Teitl: Cymorth arfaethedig ar gyfer gweithgarwch lleol sy'n gysylltiedig â hil a chydlyniant cymunedol**

**Categori Penderfyniad / Effaith Maes Busnes: Cyllid**

**Crynodeb Gweithredol:**

Yn 2023/24 a 2024/25, rhoddodd Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys nawdd blynyddol i ddigwyddiadau hanes pobl ddu Cyngor Hil Cymru ledled Cymru (Gweler DLl319, Tachwedd 2023 a DLl345, Medi 2024).

Roedd hyn mewn cydweithrediad â Chomisiynwyr Heddlu a Throseddu eraill Cymru, a gytunodd gyda'i gilydd i ddarparu nawdd ar lefel Blatinwm - £3,500.00.

Tra bod Cyngor Hil Cymru'n cyflenwi gweithgarwch cadarnhaol ledled Cymru, prin y bu'r ddarpariaeth yn ardal Dyfed-Powys.

Er mwyn sicrhau bod anghenion cymunedau Dyfed-Powys yn cael eu bodloni, ni fydd nawdd yn cael ei roi'n uniongyrchol i Gyngor Hil Cymru yn 2025/26.

Yn hytrach, rhoddir cymorth i sefydliadau lleol yn ardal Dyfed-Powys sy'n canolbwyntio ar uchafu a gwella cydlyniant cymunedol gyda phobl o gefndiroedd lleiafrifoedd ethnig.

**Argymhelliad:**
Peidio rhoi nawdd i Gyngor Hil Cymru yn 2025/26, gan ailgyfeirio cymorth i weithgarwch sy'n gysylltiedig â hil / cydlyniant cymunedol lleol dros y flwyddyn.

**Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys**

Cadarnhaf fy mod wedi ystyried a oes gennyf unrhyw ddiddordeb personol neu sy'n rhagfarnu yn y mater hwn a fy mod wedi gwneud y penderfyniad arfaethedig yn unol ag Egwyddorion Nolan ar gyfer Ymddygiad mewn Bywyd Cyhoeddus.

Rwy'n cymeradwyo'r cais uchod.

**Llofnod:** Dafydd Llywelyn **Dyddiad: 05/08/2025**